
Taflen ffeithiau ar gyfer ymgyrchwyr deisebu: Deunydd deiseb adalw ac argraffnodau

Deunydd deiseb adalw yw deunydd a gyhoeddir i hyrwyddo llwyddiant neu fethiant deiseb adalw.

Yn unol â Deddf Adalw Asau 2015, mae rheolau o ran rhoi argraffnodau ar ddeunyddiau deiseb adalw. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol drwy'r amser.

Pryd bynnag bod deunydd deiseb adalw yn cael ei gynhyrchu, mae'n rhaid iddo gynnwys peth manylion penodol (yr ydym ni'n ei alw'n agraffnod) i ddangos pwy sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r deunydd. Mae hyn yn helpu sicrhau bod tryloywder o ran pwy sy'n ymgyrchu.

Mae'r rheolau ar argraffnodau yn berthnasol i holl ymgyrchwyr deisebu, p'un a ydych wedi cofrestru gyda'r Swyddog Deiseb ai

peidio. Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'r rheolau sy'n rhaid i chi eu dilyn.

Beth yw ymgyrchydd deiseb adalw?

Unigolion neu sefydliadau sy'n ymgyrchu i hyrwyddo llwyddiant neu fethiant deiseb i adalw AS unwaith i ddeiseb adalw gael ei gychwyn yn unol â Deddf Adalw Asau 2015 yw ymgyrchwyr deiseb adalw.

Beth yw deunydd deiseb adalw?

Deunydd deiseb adalw yw deunydd a gyhoeddir megis taflenni, hysbysebion a gwefannau a gyhoeddwyd i hyrwyddo llwyddiant neu fethiant deiseb adalw. Mae rheolau cyffredinol ar ddeunydd deiseb adalw, a gweithgarwch ymgyrchu arall, a ymgymerydd gan ymgyrchwyr deiseb adalw allai hefyd fod yn berthnasol i chi. Mae'r rheolau hyn yn cynnwys terfynau gwario, rhoddion ac adrodd. Gallwch ddarllen mwyn yn ein [Canllawiau i ymgyrchwyr deiseb adalw](#).

Beth yw argraffnod

Ychwanegir argraffnod i'r deunydd deiseb adalw i ddangos pwy sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Mae'n helpu sicrhau bod tryloywder o ran pwy sy'n ymgyrchu.

Beth sy'n rhaid i chi gynnwys?

Ar ddeunydd wedi'i argraffu megis taflenni a phosteri, mae'n rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad:

- yr argraffwr, a
- yr hyrwyddwr

Yr hyrwyddwr yw'r person sydd wedi awdurdodi i'r deunydd gael ei

argraffu. Os ydych wedi cofrestru gyda ni fel ymgyrchydd nad yw'n blaid, efallai mai dyma'r person a hysbyswyd i'r Swyddog Deiseb fel y 'person cyfrifol' neu rywun a awdurdodwyd ganddynt i wario.

Os yw'r hyrwyddwr yn gweithio ar ran grŵp neu sefydliad, mae'n rhaid i chi hefyd gynnwys enw a chyfeiriad y grŵp neu'r sefydliad.

Gallwch un ai ddefnyddio chyfeiriad cartref neu swyddfa.

Os ydych yn rhoi hysbyseb mewn papur newydd, nid oes angen i'ch hysbyseb gynnwys enw a chyfeiriad yr argraffwr.

Mae'n drosedd i beidio â chynnwys argraffnod ar ddeunydd etholiadol argraffedig.

Esiampl o argraffnod

Dylai argraffnod edrych fel hyn:

Argraffwyd gan Armadillo Printing Ltd, 20 Heol y Bari, Caerdydd.
Hyrwyddwyd gan J Smith ar ran Grŵp yr Ymgyrchu,

y ddau o 110 Stryd Uchel,
Abertawe.

Ble ddylech roi'r argraffnod?

Os yw eich deunydd yn ddogfen un ochr - megis poster ffenestr - neu lle mae'r mwyafrif o wybodaeth ar un ochr, mae'n rhaid i chi roi'r argraffnod ar wyneb y ddogfen.

Os yw'n ddogfen amlochrog, mae'n rhaid i chi ei roi ar y dudalen gyntaf neu'r olaf.

Gwefannau a deunydd electronig arall

Fel arfer da, rydym yn argymhell y dylech roi argraffnod ar ddeunydd etholiadol megis gwefannau ac e-byst. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwyr a'r sefydliad y mae wedi'i gynhyrchu ar ei ran. Dylech gynnwys argraffnod heblaw bod maint neu fformat y deunydd etholiadol yn golygu na fyddai'r argraffnod yn ddarllenadwy.

Lle nad yw'n ymarferol i roi argraffnod llawn ar y deunydd etholiadol, dylech ystyried sut i roi ffyrdd eraill o gysylltu'r deunydd etholiadol â chi.

Trydaru a phostio ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol

Dylech arddangos eich manylion argraffnod llawn yn amlwg ar eich proffil

Gallwch gynnwys dolen wedi'i byrhau i'ch argraffnod yn eich trydariad neu'ch postiad.

Delweddau a chartwnau ar-lein

Os yw'n anymarferol i roi argraffnod llawn ar ddelwedd, dylech gynnwys testun dolen neu logo â hyperddolen neu arwyddlun sy'n arwain i'ch argraffnod llawn.

Weithiau mae gan ymgyrchwyr arwyddluniau neu logos y bydd pleidleiswyr yn cysylltu gydag unigolyn neu sefydliad yn hawdd. Os ydych yn hyderus mai dyma'r achos, gellir defnyddio'r arwyddluniau neu'r logos hyn yn hytrach na'r argraffnod llawn ar ddeunydd, os nad yw'n ymarferol.

Sylwadau

Nid yw'n debygol bod sylwadau unigol a roddir ar fforymau trafod yn dod o dan y rheolau ar argraffnodau na'r rheolau ar ymgyrchu deiseb adalw.

Ond, fel arfer da, rydym yn argymhell os ydych yn defnyddio'r fforymau hyn eich bod yn ei gwneud hi'n glir pwy ydych lle bod hyn yn bosibl.

Ble gallwch chi gael mwy o wybodaeth

Rydym yn cyhoeddi canllawiau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sydd ar gael [yma](#) yn.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cyngor a gallwch gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk